

Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei gymryd



Ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu

Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthy ch chi beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am eich hawliau



Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y llyfryn yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Mae rhai geiriau yn anodd i'w deall efallai. Maen nhw mewn **ysgrifen glas clir** ac maen nhw wedi cael eu hesbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen glas normal**, ewch i'r **Geiriau anodd** ar dudalen 14 i weld beth maen nhw'n feddwl.



Cafodd y llyfryn yma ei wneud yn hawdd ei ddeall ar gyfer y Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Mae'r llyfryn yma yn rhan o set o 4 llyfryn am eich hawliau fel rhiant:



Llyfryn 1 — Eich hawliau pan rydych chi'n feichiog



Llyfryn 2 — Eich hawliau pan mae eich babi yn cael ei eni



Llyfryn 3 — Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Llyfryn 4 — Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei gymryd

I gael rhagor o gopiau o unrhyw un o'r llyfrynnau yma cysylltwch gyda Samantha Williams, Cydlynnydd Polisi a Rhwydwaith:



Ffôn: 029 2068 1160

E-bost: samantha.williams@ldw.org.uk



Gwefan: www.adcymru.org.uk/prosiectau/prosiectau-cyfredol/gweithio-ar-y-cyd-gyda-rhieni

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn	2
Gwasanaethau Cymdeithasol	5
Eich hawliau pan mae eich plentyn gyda rhieni maeth.....	6
Eich hawliau pan mae eich plentyn gyda gwarcheidwad arbennig.....	7
Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei fabwysiadu.....	9
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.....	11
Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw.....	13
Geiriau anodd	15

Gwasanaethau Cymdeithasol



Efallai bod y gwasanaethau cymdeithasol yn poeni nad ydych yn gallu cadw'ch plentyn yn ddiogel ac yn iach.



Efallai y byddan nhw'n penderfynu ei bod hi'n well i'ch plentyn fyw gyda rhywun arall.



Efallai y bydd hi'n anodd i chi ddeall popeth mewn cyfarfodydd am eich plentyn.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol geisio eich helpu i ddeall y cyfarfodydd yma.

Eich hawliau pan mae eich plentyn gyda rhieni maeth



Rhiant maeth ydy rhywun sydd yn gofalu am blant rhywun arall am ychydig. Mae'n gallu bod am ychydig ddyddiau neu am lawer hirach.



Os ydy eich plentyn yn byw gyda **rhieni maeth**, mae gennych hawl i gael dweud eich meddwl am pryd a lle i gael gweld eich plentyn.

Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol siarad gyda chi am hyn a gwrando arnoch chi.



Ond does dim rhaid iddyn nhw wneud beth rydych chi eisiau.

Rhaid iddyn nhw wneud eu gorau i'w gwneud hi'n hawdd i chi weld eich plentyn.



Maen nhw hefyd yn gallu cynllunio i'ch teulu neu ffrindiau weld eich plentyn.



Ond maen nhw'n gallu stopio'r ymweliadau os ydyn nhw'n meddwl nad ydy hynny'n dda i'ch plentyn.



Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyh chi pam maen nhw wedi stopio'r ymweliadau.

Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyh chi beth y gallwch chi ei wneud i weld eich plentyn eto.

Eich hawliau pan mae eich plentyn gyda gwarcheidwad arbennig



Gwarcheidwad arbennig ydy person:

- y mae eich plentyn yn gallu byw gyda nhw tan maen nhw'n 18 oed
- sydd yn gallu gwneud penderfyniadau am fywyd eich plentyn fel i ba ysgol maen nhw'n mynd
- sydd â llais cryfach na chi am eich plentyn.

Y llys sydd yn penderfynu os ydy **gwarcheidwad arbennig** yn dda i'ch plentyn.

Mae gennych hawl o hyd i weld eich plentyn.

Mae gennych hawl i gael dweud sut maen nhw'n derbyn gofal.



Mae **eiriolydd** neu weithiwr cymdeithasol yn gallu eich helpu i gael dweud beth rydych yn feddwl.

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.



Ond maen nhw'n gallu stopio ymweliadau os ydyn nhw'n meddwl nad ydy hynny'n dda i'r plentyn.

Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyh chi pam maen nhw wedi stopio'r ymweliadau.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud beth rydych chi'n gallu ei wneud i weld eich plentyn eto.

Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei fabwysiadu



Weithiau mae plentyn yn cael ei roi mewn lle **maeth ar gyfer mabwysiadu**.



Mae lle **maeth ar gyfer mabwysiadu** yn golygu y bydd y **rhieni maeth** yn **mabwysiadu** eich plentyn yn y dyfodol.

Pan maen nhw'n **mabwysiadu** eich plentyn nhw ydy rhieni newydd y plentyn am byth.



Mae'r **rhieni maeth** yn gofalu am eich plentyn tra bod y llys yn penderfynu os mai **mabwysiadu** ydy'r peth iawn ar gyfer eich plentyn.



Mae gennych hawl i weld eich plentyn tra maen nhw mewn cartref **maeth**.

Rydych yn dal i gael dweud eich meddwl am beth sy'n digwydd.



Ond mae'r llys yn gallu stopio'r ymweliadau os ydyn nhw'n meddwl nad ydy hynny'n dda i'ch plentyn.



Pan mae eich plentyn yn cael ei **fabwysiadu** mae gennych hawl i gefnogaeth. Mae hyn i'ch helpu i ddeall beth fydd yn digwydd.

Ar ôl i'ch plentyn gael ei **fabwysiadu** ni fydd gennych unrhyw hawliau:



- i weld eich plentyn



- i gael dweud eich meddwl am fywyd eich plentyn.

Gallwch ofyn am gael gwybod sut mae eich plentyn. Ond does neb yn gallu addo y byddwch yn cael gwybod.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

 Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014



Dim ond yng Nghymru mae'r ddeddf yma. Mae'n dweud bod rhaid i wasanaethau cymdeithasol:



- helpu plant i dyfu'i fyny yn eu teulu eu hunain lle mae hynny'n bosibl



- gwrando ar beth rydych chi eisiau cyn belled â bod hynny'n ddiogel



- gwrando ar bobl sydd yn adnabod y plentyn
- ei gwneud yn hawdd i chi gadw mewn cysylltiad gyda'ch plentyn



- dweud wrthydych chi lle mae'r plentyn yn byw cyn belled â bod hynny'n ddiogel.

Mae'r ddeddf yma hefyd yn dweud y dylai plant fyw:



- yn agos at eu cartref cyn belled â bod hynny'n ddiogel



- gyda'u brodyr a'u chwiorydd
- lle maen nhw'n gallu cario ymlaen gyda'u hysgol.

Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw



Efallai eich bod yn teimlo nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw.

Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu i siarad gyda'r gwasanaethau cymdeithasol am hyn.



Mae eich gweithiwr cymdeithasol neu eich **cyfreithiwr** yn gallu eich helpu i gael eich hawliau.

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.



Neu maen nhw'n gallu esbonio pam mae beth sydd wedi cael ei wneud yn gywir yn y gyfraith.



Mae gennych hawl i fynd i gyfarfodydd am eich plentyn.



Gallwch ofyn i rhywun arall fynd a siarad drosoch.

Os **nad** ydy hyn yn digwydd gallwch gwyno wrth y gwasanaethau cymdeithasol.



Efallai eich bod yn meddwl nad ydy'r ffordd mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn deg.



Mae gennych hawl i ofyn am gael newid penderfyniadau.

Ond dydy hyn **ddim** yn golygu y bydd y penderfyniadau yn cael eu newid.

Geiriau anodd

Cyfreithiwr

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.

Gwarcheidwad arbennig

Gwarcheidwad arbennig ydy person:

- y mae eich plentyn yn gallu byw gyda nhw tan maen nhw'n 18 oed
- sydd yn gallu gwneud penderfyniadau am fywyd eich plentyn fel i ba ysgol maen nhw'n mynd
- sydd â llais cryfach na chi am eich plentyn.

Maeth ar gyfer mabwysiadu

Mae lle maeth ar gyfer mabwysiadu yn golygu y bydd y rhieni maeth yn mabwysiadu eich plentyn yn y dyfodol.

Pan maen nhw'n mabwysiadu eich plentyn nhw ydy rhieni newydd y plentyn am byth.

Rhiant maeth

Rhiant maeth ydy rhywun sydd yn gofalu am blant rhywun arall am ychydig. Mae'n gallu bod am ychydig ddyddiau neu am lawer hirach.